

ANTUR NANTLLE CYF

Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle
20 Heol y Dŵr
Penygroes
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6LR



Swydd Ddisgrifiad: Gofalwr/wraig, Canolfan Awyr **Agored Rhyd Ddu**

Dyddiad cau: 29-07-2016

Oriau: 12 awr yr wythnos

Cyflog: £7.29 yr awr

Rheolwr Llinell: Prif Swyddog Antur Nantlle

Pwrpas y Swydd

- Sicrhau fod Canolfan Rhyd Ddu yn ymateb yn groesawgar i ymwelwyr a'i fod yn adlewyrchu hanes a diwylliant yr adeilad a'r ardal
- Cadw'r Ganolfan yn lan a thaclus ar bob achlysur

Cyfrifoldeb

- Offer
- Adeilad

Prif Ddyletswyddau

1. Glanhau'r adeilad - hefyd y tir sydd yn berchen i'r Ganolfan i sicrhau eu bod yn daclus a glan ar bob achlysur
2. Gofalu am ddiogelwch y ganolfan ar bob achlysur o fewn rheswm
3. Profi/archwilio offer tân yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithio'n ddiogel ac adrodd unrhyw ddiffygion
4. Adrodd ar unrhyw ddiffygion neu nam ar unrhyw offer neu gyfarpar y ganolfan.
5. Agor a chau'r ganolfan i adeiladwyr neu asiant cyfrifol
6. Sicrhau fod y sbwriel yn cael ei gasglu yn rheolaidd [neu ei ailgylchu] yn unol gyda chyfarwyddyd y Cyngor Sir
7. Cofnodi mesuriadau mesuryddion dŵr, trydan a nwy
8. Sicrhau fod unrhyw ddefnydd neu gyfarpar sydd angen eu cyflawni yn cael eu harchebu mewn llawn bryd drwy swyddfa Antur Nantlle
9. Ymateb pan fo'r angen i alwad argyfwng yn y ganolfan. [achlysuron prin]
10. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau perthnasol yn ôl cais rhesymol
11. Cydymffurfio gyda Deddf Iechyd a Diogelwch yn y gweithle 1974

12. Efallai y bydd amgylchiadau anghyffredin yn codi pan fydd angen i'r unigolyn weithio oriau anghymdeithasol

Mae'r swydd ddisgrifiad yma yn disgrifio prif bwrpas y swydd ond nid ydyw yn hollgynhwysfawr ym mhob agwedd ac nid yw yn rhan o gytundeb cyflogaeth.

Manylion Person

Hanfodol

- Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig
- Perchen ar drwydded yrru gyfredol

Dymunol

- Hyfforddiant mewn gweithdrefnau glanhau
- Hyfforddiant mewn lechyd a Diogelwch, e.e. symud a thrin neu cymorth cyntaf
- Profiad o weithio mewn swydd glanhau
- Profiad o brofi systemau diogelwch tân i lefel sylfaenol
- Meddu ar sgiliau rhyngpersonol da
- Sgiliau cyfathrebu da
- Gallu gweithredu yn unigol heb arweiniad cyson, ac fel aelod o dîm os oes angen

Eraill

Byddwn yn gofyn am ddadleniad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus.

Gwahoddir ceisiadau am y swydd hon drwy lythyr a CV. Byddwn yn gofyn am eirida gan ddau ganolwr a gofynnwn i chi nodi'r enwau yma ar eich CV er mwyn i ni allu cysylltu â hwy.

Defnyddir rhain fel meini prawf wrth asesu pob ymgeisydd.